**Rhif: WG50056**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen ymgynghori

Gwefru Cerbydau Trydan mewn Adeiladau Preswyl a Dibreswyl

Dyddiad cyhoeddi: 6 Medi 2024

Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 29 Tachwedd 2024

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50056

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y diwygiadau drafft i Reoliadau Adeiladu yng Nghymru. Bydd y diwygiadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu mannau gwefru cerbydau trydan mewn adeiladau preswyl a dibreswyl newydd, ac adeiladau sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol, neu os oes newid mawr yn eu defnydd, sydd â meysydd parcio cysylltiedig. |
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 29 Tachwedd 2024. Dyma'r manylion am sut i ymateb:<br><br>E-bost: Dylech gwblhau ffurflen yr ymgynghoriad a'i hanfon i: rheoliadauadeiladugwefrwyrev@llyw.cymru<br><br>Post: Dylech gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:<br><br>Rheoliadau Adeiladu Mannau Gwefru Cerbydau Trydan<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Gellir gwneud cais am ragor o wybodaeth a fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Rheoliadau Adeiladu Mannau Gwefru Cerbydau Trydan,<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Parc Cathays<br><br>Caerdydd CF10 3NQ<br><br>e-bost: rheoliadauadeiladugwefrwyrev@llyw.cymru<br><br>Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd |

## Rheoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Art 6(1)(e)

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan y staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn eu trafod neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Lle y bo Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach ar ymatebion yr ymgynghoriad, yna mae'n bosibl y bydd y gwaith hwn yn cael ei gomisiynu i'w gynnal gan drydydd parti awdurdodedig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghoriaeth). Gwneir unrhyw waith o'r fath o dan gontract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Yna byddwn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os bydd eich manylion yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna bydd yr adroddiadau hyn a gyhoeddir yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata gennych a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru'n cael eu cadw am ddim mwy na tair blynedd.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i ofyn i ni gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (mewn amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (mewn amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru a'i defnydd, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, mae'r manylion cyswllt i'w cael isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru:
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


1. **Cyflwyniad i'r cynigion ar Fannau Gwefru Cerbydau Trydan .................................. 2**
   - 1.1 Cyflwyniad i’r Adran .................................................................................................. 2
   - 1.2 Rhaglen a gweithredu ................................................................................................ 2
   - 1.3 Cefndir cyffredinol a chwmpas yr ymgynghoriad hwn.................................................... 2
2. **Gosodiadau mannau gwefru cerbydau trydan......................................................... 7**
   - 2.1 Cyflwyniad ................................................................................................................ 7
   - 2.2 Nodweddion technegol a mathau o offer mannau gwefru............................................. 7
   - 2.3 Y broses ar gyfer gosod mannau gwefru cerbydau trydan mewn adeiladau. .................. 8
3. **Rheoliadau Adeiladu arfaethedig ar gyfer adeiladau preswyl newydd ac adeiladau preswyl sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol. ............................................................................................................. 9**
   - 3.1 Cyflwyniad ................................................................................................................ 9
   - 3.2 Gofyniad arfaethedig.................................................................................................. 9
   - 3.3 Manteision y dull gweithredu hwn ............................................................................ 10
   - 3.4 Risgiau a Nodwyd ..................................................................................................... 10
   - 3.5 Ystyried opsiynau amgen .......................................................................................... 11
   - 3.6 Gofyniad arfaethedig ar gyfer un man gwefru fesul 'Annedd' yn y rheoliadau adeiladu. .... 11
   - 3.7 Gwaith adnewyddu sylweddol i adeiladau preswyl ..................................................... 12
   - 3.8 Newid defnydd sylweddol i adeiladau preswyl ........................................................... 13
4. **Newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu: .................................................. 16**

   **Adeiladau dibreswyl newydd ac adeiladau dibreswyl sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol. .......................................... 16**
   - 4.1 Cyflwyniad ................................................................................................................ 16
   - 4.2 Gofyniad arfaethedig.................................................................................................. 16
   - 4.3 Manteision y dull gweithredu hwn.............................................................................. 16
5. **Manylebau technegol Rheoliadau Adeiladu ........................................................... 18**
   - 5.1 Cyflwyniad ................................................................................................................ 18
   - 5.2 Ystyriaethau diogelwch ............................................................................................. 18
6. **Ystyriaethau allweddol ar gyfer esemptiadau ........................................................ 19**
   - 6.1 Cyflwyniad ................................................................................................................ 19
   - 6.2 Trafodaeth yn ymwneud ag esemptiadau posibl i'r rheoliadau adeiladu. ...................... 19
7. **Asesiad Effaith ....................................................................................................... 25**
8. **Trefniadau trosiannol / Amseroedd paratoi ............................................................ 26**
9. **Camau Nesaf .......................................................................................................... 27**

# 1. Cyflwyniad i'r cynigion ar Fannau Gwefru Cerbydau Trydan

## 1.1 Cyflwyniad i'r Adran

Mae'r adran hon o'r ddogfen ymgynghori yn cyflwyno cefndir a chwmpas cyffredinol y cynigion ar gyfer cyflwyno mannau gwefru Cerbydau Trydan yng Nghymru, drwy gyfrwng deddfwriaethol Rheoliadau Adeiladu Cymru, sydd i'w cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

## 1.2 Rhaglen a gweithredu

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 6 Medi 2024 a bydd yn para tan 29 Tachwedd 2024. Yna bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ymatebion cyn ymateb yn ffurfiol. Hefyd, bydd y llywodraeth yn llunio asesiad o'r effaith economaidd ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn gosod yr Offeryn Statudol gerbron y Senedd.

## 1.3 Cefndir cyffredinol a chwmpas yr ymgynghoriad hwn

### 1.3.1 Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2

Mae Cymru Sero Net: Cyllid Garbon 2 yn amlinellu uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau a dileu allyriadau carbon o'r sector trafnidiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cyd-fynd â nod y Llywodraeth o greu economi sero net erbyn 2050.

Mae'r newid i ddefnyddio ceir a faniau trydan, yn hytrach na cherbydau petrol a diesel, yn rhan allweddol o'r cynllun. Bydd peidio â defnyddio ceir a faniau petrol a diesel hefyd yn gwella ansawdd aer ac yn lleihau effeithiau llygredd aer fel y'i nodir yn ein Cynllun Aer Glân[1].

Ym mis Mawrth 2023, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cyd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, ac Adran Seilwaith Gogledd Iwerddon yn gofyn am safbwyntiau ar ddyluniad manwl a'r dull o weithredu'r mandad Cerbydau Di-allyriadau (ZEV) ar gyfer ceir a faniau newydd. Cymeradwywyd mandad ZEV gan y Senedd ar 14 Tachwedd 2023, ac o fis Ionawr 2024 ymlaen, bydd 22 y cant o geir newydd sy'n cael eu gwerthu a 10 y cant o faniau newydd sy'n cael eu gwerthu ym Mhrydain yn gerbydau di-allyriadau. Bydd hyn yn cynyddu i 80% a 70% yn y drefn honno erbyn 2030. Mae mecanwaith i sicrhau y bydd pob car a fan newydd yn gerbydau di-allyriadau llawn o'r bibell egsôst o 2035 ymlaen yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

[1] Cynllun aer glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach | LLYW.CYMRU

### 1.3.2 Polisi Cynllunio Cymru

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod angen i ddatblygiadau sicrhau bod pawb yn gallu gwneud dewisiadau teithio cynaliadwy ac iach wrth iddynt deithio bob dydd. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn hyrwyddo'r broses o osod mannau gwefru cerbydau trydan mewn datblygiadau newydd, ac mae rhai awdurdodau lleol wedi dechrau pennu bod darparu mannau gwefru mewn adeiladau newydd yn amod cynllunio, ond mae'r dull gweithredu yn anghyson ledled y wlad.

### 1.3.3 Cynigion yr Ymgynghoriad

Byddai'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn helpu i gyflawni pedwar nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae ein hymdrechion i ddatgarboneiddio yn cael eu sbarduno gan yr angen i liniaru newid yn yr hinsawdd byd-eang a symud tuag at ddefnyddio cerbydau trydan a fydd yn lleihau llygredd aer niweidiol sy'n cael effaith anghymesur ar y bobl dlotaf mewn cymdeithas.

Er mwyn helpu i ddiogelu cartrefi at y dyfodol ar gyfer trosglwyddo i gerbydau trydan, rydym am i bob cartref newydd gael man gwefru lle bo hynny'n briodol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar gyflwyno'r gofyniad hwn drwy'r Rheoliadau Adeiladu.

### 1.3.4 Yr angen am fannau gwefru Cerbydau Trydan

Er mwyn gwireddu ein huchelgais ar gyfer y defnydd o gerbydau di-allyriadau, mae angen rhwydwaith seilwaith gwefru hygyrch, fforddiadwy a diogel ar gyfer cerbydau trydan. Yn aml, mae gwaith ymchwil defnyddwyr yn nodi mai diffyg mannau gwefru yw un o'r prif resymau pam na fydd rhai pobl yn ystyried prynu cerbyd trydan[2]. Felly, mae cynyddu argaeledd a mynediad at fannau gwefru yn allweddol i annog pobl i newid. Un o brif atyniadau cerbyd trydan yw'r ffaith fod modd ei wefru lle bynnag y mae'n cael ei barcio, ar yr amod bod pwynt trydan addas ar gael. Rydym yn disgwyl gweld ystod o opsiynau gwefru ar gyfer gyrwyr - mewn cyrchfannau (e.e. archfarchnadoedd), gweithleoedd ac ar y ffordd (e.e. mannau gwasanaethau traffordd).

### 1.3.5 Gwefru Cerbydau Trydan Gartref

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl sydd â lle parcio addas yn gwefru eu cerbydau trydan gartref. I'r gyrwyr hyn, gwefru eu cerbydau trydan gartref yw'r opsiwn mwyaf cyfleus, a bydd yn rhatach yn aml na defnyddio'r rhwydwaith cyhoeddus[3], yn enwedig

[2] Ymchwil Gwefru Cerbydau Trydan. Arolwg gyda gyrwyr cerbydau trydan. Adroddiad ymchwil. (publishing.service.gov.uk)

[3] Gall gwefru car trydan gartref gostio cyn lleied â 3c y filltir (Go Ultra Low)

wrth wefru dros nos a manteisio ar dariffau oriau allfrig. O ystyried bod 98 y cant o deithiau yn y DU yn llai na 50 milltir o hyd (Arolwg Teithio Cenedlaethol, 2016), mae'n bosibl na fydd angen i lawer o yrwyr sydd â mynediad at fan gwefru gartref fyth defnyddio'r rhwydwaith mannau gwefru cyhoeddus ac eithrio teithiau hirach.

Hefyd, mae gwefru ceir gartref dros nos trwy ddefnyddio man gwefru pwrpasol yn arwain at fanteision ehangach i'r system drwy alluogi cerbydau trydan i wneud cyfraniad llawn at ein system ynni glyfar a hyblyg yn y dyfodol, gan wefru ar adegau pan fydd llai o alw ar y system drydan yn ei chyfanrwydd, a phan fydd yn rhatach gwneud hynny. Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar wahân yn 2019 ar gyflwyno gofynion rheoleiddiol i sicrhau bod mannau gwefru yn rhai clyfar, gan alluogi cerbydau trydan i gael eu hintegreiddio i system ynni glyfar a hyblyg yn y dyfodol.[4] Am y rhesymau hyn, rydym yn disgwyl y bydd gwefru gartref yn parhau i fod yn ganolog i'r ecosystem wefru yn y dyfodol.

Er gwaethaf hyn, nid yw mannau gwefru yn cael eu gosod fel rhan o arfer safonol mewn llawer o'r cartrefi sy'n cael eu hadeiladu yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu y bydd angen ôl-osod mannau gwefru maes o law. Mae hyn yn ddrutach na gosod mannau gwefru adeg adeiladu'r tai, a gall achosi aflonyddwch i'r gymuned a thrigolion lleol yn ddiweddarach os oes angen cloddio ffyrdd a phalmentydd eto er mwyn atgyfnerthu darpariaethau a chapasiti'r rhwydwaith trydan lleol.

### 1.3.6 Gweithredu gofynion gan ddefnyddio Rheoliadau Adeiladu, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson

Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn cynnig llwybr sefydledig ar gyfer pennu gofynion ar gyfer adeiladau newydd, gan ddarparu dull gweithredu cyson ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn mewn perthynas â'r canlynol:

a) adeiladau preswyl a dibreswyl newydd,
b) adeiladau preswyl a dibreswyl presennol sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol.

Bydd defnyddio'r Rheoliadau Adeiladu yn darparu ymagwedd fwy safonol at offer gwefru cerbydau trydan mewn adeiladau newydd ledled Cymru, gan helpu i sicrhau cysondeb. Bydd y cynigion yn mynnu bod datblygwyr yn dangos eu bod yn cydymffurfio drwy'r broses rheolaeth adeiladu.

---

[4] https://www.gov.uk/government/consultations/electric-vehicle-smart-charging/public-feedback/electric-vehicle-smart-charging-consultation-summary-of-responses

Felly, mae'n bosibl y bydd angen i Gynlluniau Datblygu Lleol barhau i ystyried darpariaeth ehangach gwefru cerbydau trydan, gan gynnwys ardaloedd sy'n dibynnu ar barcio ar y stryd.

Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gennym yw cyflwyno gofyniad swyddogaethol newydd o dan Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010.

### 1.3.7 Mathau o adeiladau preswyl a dibreswyl fel y'u diffinnir gan y Rheoliadau Adeiladu

Mae yna wahanol fathau o adeiladau a allai fod â mannau parcio ceir cysylltiedig.

Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, mae adeilad yn cael ei ddiffinio yn unol â'r Rheoliadau Adeiladu[5]. Byddai'r gofynion fod yn berthnasol i adeiladau sy'n feysydd parcio aml-lawr hefyd.

#### Adeilad Preswyl

Gall adeilad preswyl fod yn adeilad sy'n annedd ("tŷ annedd" yn y Rheoliadau Adeiladu), megis tŷ ar wahân neu dŷ pâr, y cyfeirir ato at ddibenion yr ymgynghoriad hwn fel adeilad un annedd.

Hefyd, gall adeilad preswyl fod yn adeilad sy'n cynnwys sawl annedd neu "fflat". Dyma'r diffiniad o fflat yn y Rheoliadau Adeiladu: "*a separate and self-contained premises constructed or adapted for use for residential purposes and forming part of a building from some other part of which it is divided horizontally*". At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, ystyr bloc o fflatiau yw adeilad aml-annedd.

#### Adeilad Dibreswyl

Yng nghyd-destun y Rheoliadau Adeiladu, ystyr adeilad dibreswyl yw adeilad heblaw adeilad sy'n cynnwys annedd (ac eithrio adeiladau sy'n eiddo i bersonau sydd wedi'u hawdurdodi gan y gyfraith i adeiladu neu gyflawni gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus a phrosiectau mawr eraill (e.e. gorsaf reilffordd)).

[5] The Building Regulations 2010 (legislation.gov.uk)

## 1.3.8 Crynodeb o’r safbwyntiau polisi arfaethedig

### Tabl 1: Crynodeb o’r safbwyntiau polisi arfaethedig

| **ADEILADAU PRESWYL**<br><br>**Adeiladau newydd ac adeiladau presennol sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol** | **ADEILADAU DIBRESWYL**<br><br>**Adeiladau newydd ac adeiladau presennol sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol** | **ADEILADAU DIBRESWYL**<br><br>**Adeiladau presennol NAD YDYNT yn cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu'n destun newid defnydd sylweddol** |
|---|---|---|
| Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai pob adeilad preswyl newydd sydd â lle parcio cysylltiedig (o fewn ffin y safle) gael man gwefru.<br><br>Rydym yn cynnig y dylai'r gofyniad hwn fod yn berthnasol hefyd i adeiladau sy'n destun newid defnydd sylweddol i greu annedd (p'un a oedd yr un adeilad yn cynnwys annedd cyn y gwaith adnewyddu ai peidio).<br><br>Mae'r llywodraeth yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i bob adeilad preswyl sy'n cael ei adnewyddu'n sylweddol (gweler paragraff 3.7) ac sydd â mwy na 10 o leoedd parcio ceir gael mannau gwefru cerbydau trydan eu gosod ym mhob lle parcio. | Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai pob adeilad dibreswyl newydd sydd â mwy na 10 o leoedd parcio ceir a phob adeilad dibreswyl sy'n cael ei adnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol sydd â mwy na 10 o leoedd parcio ceir gael un man gwefru a llwybrau cebl ar gyfer man gwefru cerbydau trydan ar gyfer un ym mhob pum lle. | Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig gofyniad ar gyfer mannau gwefru mewn adeiladau dibreswyl presennol (nad ydynt yn cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu'n destun newid defnydd sylweddol).<br><br>Yn y dyfodol, byddwn yn ystyried sut y gellir hyrwyddo'r broses o ddarparu mannau gwefru mewn adeiladau dibreswyl presennol ar sail dull gweithredu wedi'i deilwra sy'n ystyried maint y maes parcio dan sylw a maint y busnes sy'n berchen arno. |

Mae'r gofynion rydym yn eu cynnig yn berthnasol hefyd i leoedd parcio ceir mewn adeiladau neu gerllaw adeiladau.

# 2. Gosodiadau mannau gwefru cerbydau trydan

## 2.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o offer gwefru cerbydau trydan sydd ar gael yn ymarferol fel arfer ac mae'n disgrifio'r broses o osod mannau gwefru mewn lleoliadau preswyl a dibreswyl.

## 2.2 Nodweddion technegol a mathau o offer mannau gwefru

Mae modd gwefru cerbydau trydan ar gyflymder gwahanol, gan ddibynnu ar y math o gerbyd, patrwm defnydd y lleoliad a'r math o fan gwefru. Mae'r tabl isod yn nodi'r mathau o wefru allweddol, lle maent ar gael fel arfer, a'r amser gwefru dangosol. Dylid nodi bod yna ystod sylweddol o ofynion pŵer ar gyfer gwefryddion gan ddibynnu ar y lleoliad a'r cyfnodau gwefru fel y'u nodir:

### Tabl 2: Mathau o Fannau Gwefru Cerbydau Trydan

| Pŵer y Man Gwefru | Math o gyflenwad trydan y man gwefru (gweler nodyn (a), isod) | Cysylltydd (Gweler nodyn (b), isod) | Modd (Gweler nodyn (c), isod) | Lleoliad Nodweddiadol | Cyfnod/amser gwefru enghreifftiol[6] |
|---|---|---|---|---|---|
| **3.5kW** | AC | Math 1/ Math 2[7] | Modd 3 | Cartrefi, lleoliadau ar y stryd, cyrchfannau | Tua 11 awr |
| **7kW** | AC | Math 1/ Math 2 | Modd 3 | Cartrefi, lleoliadau ar y stryd, cyrchfannau | Tua 5 - 7 awr |
| **22kW** | AC | Math 1/ Math 2 | Modd 3 | Cyrchfannau | Tua 2 awr |
| **50kW** | DC | CCS / CHAdeMO | Modd 4 | Mannau Gwasanaeth Traffyrdd / cyrchfannau | <1 awr |
| **150kW+** | DC | CCS / CHAdeMO | Modd 4 | Mannau Gwasanaeth Traffyrdd / cyrchfannau | <30 munud |

[6] O 0 i 100 y cant, 40kWh Nissan LEAF. Noder bod hyn at ddibenion enghreifftiol yn unig - nid yw Leaf Nissan 40kWh yn gallu gwefru ar gyflymder cyflym iawn (150kW+).

[7] Mae cysylltyddion Math 2 yn dod yn safonol yn y diwydiant cynhyrchu cerbydau ar gyfer gwefru ar gyflymder arafach.

(a) **Math o gyflenwad trydan y man gwefru:** Gall ddefnyddio system AC, lle mae cerrynt eiledol (AC) yn cael ei gyflenwi i'r cerbyd ac mae'r cerbyd yn trosi'r cerrynt eiledol yn gerrynt uniongyrchol (DC) er mwyn gwefru'r batri. Neu gall y cerrynt gwefru fod yn DC, lle mae'r cerrynt eiledol yn cael ei drosi i DC o fewn y man gwefru cyn iddo gael ei gyflenwi i'r cerbyd.

(b) **Cysylltydd:** Mae'r math o gysylltydd yn amrywio o gerbyd i gerbyd ac mae'n dibynnu ar a yw'r cysylltydd ar gyfer defnydd pŵer isel (AC) neu uchel (DC) fel y nodir yn nhabl 2 uchod. Mae'r cysylltyddion CHAdeMO a CCS yn DC, ac mae'r cysylltyddion Math 1 a Math 2 yn AC. O safbwynt cerbydau, fel arfer mae gan fodelau Ewropeaidd (e.e. VW, Volvo, Audi) gysylltiad CCS, tra bod gan fodelau Asiaidd (e.e. Nissan a Mitsubishi) gysylltiad CHAdeMO.

(c) **Modd:** Mae safon BS EN 61851-1 2019 yn diffinio'r moddau gwahanol ar gyfer gwefru cerbydau trydan. Mae Modd 3 a 4 yn systemau arbenigol ar gyfer gwefru cerbydau trydan sy'n rhedeg o gylched bwrpasol. Mae Modd 1 a 2 yn defnyddio seilwaith nad yw'n arbenigol (e.e. y soced domestig). Nid yw Modd 1 yn darparu unrhyw amddiffyniad dyfais cerrynt gweddilliol (RCD) ac nid yw'n cael ei ystyried yn ddiogel, tra bod Modd 2 yn darparu amddiffyniad RCD, ond bydd pŵer gwefru yn cael ei gyfyngu yn aml gan brotocolau cerbydau i wefru rhwng 1.4kW a 2.3kW.

## 2.3 Y broses ar gyfer gosod mannau gwefru cerbydau trydan mewn adeiladau.

Mae angen cymryd sawl cam er mwyn gosod man gwefru mewn adeilad newydd. Mae Ffigur 1 yn amlinellu'r camau allweddol ar gyfer gosod mannau gwefru cerbydau trydan a seilwaith cysylltiedig mewn adeiladau newydd.

**(a) Cyflenwad Ynni**

Er mwyn sicrhau bod y mannau gwefru yn gweithio, mae angen eu cysylltu â chyflenwad ynni a sicrhau bod capasiti trydanol digonol ar gael. Mae cysylltiad defnyddiwr yn seiliedig ar y capasiti gofynnol. Darperir hyn gan Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNOs) neu Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu (DNOs).

**(b) Llwybrau cebl**

Mae llwybrau cebl (neu "seilwaith dwythell") yn rhedeg o'r cyflenwad pŵer i'r lleoliad a ragwelir ar gyfer y man gwefru yn y lleoedd parcio unigol. Mae sawl fformat gwahanol ar gael gan ddibynnu ar y math o adeilad, er enghraifft gellid hwyluso llwybrau cebl trwy orchuddion ceblau, cwndidau, neu blatiau cebl hygyrch.

**(c) Ceblau**

Mae'r ceblau trydanol yn rhedeg o'r pwynt cyflenwi trydan i'r lleoedd parcio unigol, trwy'r systemau cyfyngu ceblau trydanol pwrpasol, megis dwythellau tanddaearol. Bydd maint cebl yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys pŵer graddedig y mannau gwefru y bwriedir iddo eu gwasanaethu a'r pellter o'r cyflenwad pŵer i'r man gwefru.

**(d) Man gwefru**

Gosod y man gwefru ffisegol, naill ai blwch wal neu biler trosglwyddo sefydlog.

# 3. Rheoliadau Adeiladu arfaethedig ar gyfer adeiladau preswyl newydd ac adeiladau preswyl sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol.

## 3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn gofyn am safbwyntiau ar ein cynnig i osod mannau gwefru i wasanaethu lleoedd parcio sy'n gyfagos yn ffisegol i adeiladau preswyl newydd ac adeiladau preswyl sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol. Y diffiniad cyfreithiol o leoedd parcio sy'n gyfagos yn ffisegol yw "o fewn ffin safle'r annedd”.

## 3.2 Gofyniad arfaethedig

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y rheoliadau newydd yn unol â'r darpariaethau polisi sydd wedi'u hamlinellu yn adran 1.3.8 o'r ddogfen ymgynghori hon. Sef:

- **Dylai pob adeilad preswyl newydd sydd â lle parcio cysylltiedig gael man gwefru (isafswm allbwn graddedig nominal o 7kW). Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol hefyd i adeiladau preswyl sy'n destun newid defnydd sylweddol i greu annedd.**
- **Mae'r llywodraeth yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i bob adeilad preswyl sydd â 10 neu fwy o leoedd parcio ceir i gael man gwefru ym mhob lle parcio.**

Bydd y Rheoliadau Adeiladu yn darparu gofyniad swyddogaethol cyffredinol ar gyfer darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan, a diogelwch y seilwaith, a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu, a nifer o ofynion rheoleiddio newydd. Bydd canllawiau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoleiddio ar gyfer darparu mannau gwefru cerbydau trydan, a'u diogelwch, yn cael eu hamlinellu mewn Dogfen Gymeradwy S o’r Rheoliadau Adeiladu newydd.

Mewn rhai achosion, mae'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol i osod 'dwythellau', neu lwybrau cebl, ar gyfer pob lle parcio mewn adeiladau preswyl newydd ac adeiladau preswyl sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol. Bwriad hyn yw sicrhau bod modd gosod mannau gwefru cerbydau trydan maes o law. Mae'r gofynion yn berthnasol yn y sefyllfaoedd lle mae gan yr adeilad faes parcio sydd â mwy na 10 lle parcio ac:

a) mae'r maes parcio wedi'i leoli y tu mewn i'r adeilad, ac, ar gyfer gwaith adnewyddu sylweddol, mae mesurau adnewyddu yn cynnwys y maes parcio neu seilwaith trydan yr adeilad; neu
b) mae'r maes parcio yn gyfagos yn ffisegol i'r adeilad, ac, ar gyfer gwaith adnewyddu sylweddol, mae mesurau adnewyddu yn cynnwys y maes parcio neu seilwaith trydanol y maes parcio.

## 3.3 Manteision y dull gweithredu hwn

Mae rhai manteision i gyflwyno gofyniad i osod man gwefru mewn anheddau newydd:

a) sicrhau bod gan gartrefi y seilwaith angenrheidiol i helpu i gynyddu'r defnydd o gerbydau trydan yn y dyfodol, nad yw'n cael ei ddarparu'n rheolaidd mewn cartrefi newydd ar hyn o bryd.
b) darparu'r gwerth gorau am arian trwy osgoi ôl-osod mwy costus a tharfu diangen yn y dyfodol. Ar gyfer y cartref cyffredin, cost gosod man gwefru ymlaen llaw yw £1,100 (+/-£400) o'i gymharu â £2,300 (+/-£1,100) i'w ôl-osod. Mae hyn yn arwain at arbediad cost cyfartalog o £1,200 (+/-£700) fesul man gwefru.
c) mae’n rhoi hwb er mwyn helpu i gefnogi ein dyheadau ar gyfer y defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn. Os oes modd sicrhau bod mannau gwefru ar gael yn rhwydd mewn cartrefi, bydd y rhwystr allweddol i brynu cerbydau trydan yn cael ei ddileu, gan gynyddu'r defnydd o gerbydau trydan.
d) creu mwy o alw am fannau gwefru er mwyn lleihau eu cost.
e) bydd darparu mannau gwefru digonol a diogel yn helpu i atal cwsmeriaid rhag defnyddio atebion peryglus i wefru eu cerbydau, fel lidiau ymestyn wedi'u plygio i bwyntiau trydan soced safonol sy'n llusgo ar draws llwybrau cerdded.

Mae arolygon yn dangos bod cefnogaeth gref i osod mannau gwefru cerbydau trydan fel mater o drefn mewn adeiladau newydd - roedd 68% o'r ymatebwyr i arolwg diweddar gan yr AA[8] yn cefnogi'r cynigion hyn.

## 3.4 Risgiau a Nodwyd

Mae risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r gofyniad hwn. Mae'n bosibl na fydd angen rhai o'r mannau gwefru ar unwaith. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd nifer y bobl sy'n defnyddio cerbydau trydan yn cynyddu yn sylweddol yn y blynyddoedd i ddod, felly bydd llawer o'r mannau gwefru sydd eu hangen yn cael eu defnyddio o fewn eu hoes ddisgwyliedig o 15-30 mlynedd[9]. O ystyried ein dyheadau ar gyfer defnydd cerbydau trydan, rydym yn rhagdybio y bydd y rhan fwyaf o fannau gwefru sy'n cael eu gosod o dan y rheoliadau yn debygol o gael eu defnyddio. Hefyd, mae'n bwysig iawn nodi bod gan geblau'r mannau gwefru, llwybrau'r ceblau a'r capasiti trydanol gofynnol hyd oes llawer hirach.

Byddai'r polisi hwn yn cynyddu'r galw blynyddol am fannau gwefru domestig yn sylweddol. Rydym am weld cynhyrchwyr a gweithredwyr mannau gwefru yn cynyddu er mwyn ateb y galw hwn.

[8] Arolwg AA - Ebrill 2019 - Cerbydau Trydan

[9] Mae disgwyliad oes economaidd dangosol i'w weld yn Atodiad 12.A1 o Ganllaw CIBSE M. Nid oes unrhyw ganllawiau penodol ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan, ond gellid gwneud casgliadau rhesymol ar sail offer trydanol cyffredinol. https://www.breeam.nl/english-9

## 3.5 Ystyried opsiynau amgen

### 3.5.1 Opsiwn 1: Darpariaeth cost is (llwybrau ceblau neu 'seilwaith dwythell')

Un opsiwn arall ar gyfer hwyluso'r gwaith o osod mannau gwefru yw ei gwneud yn ofynnol i osod llwybrau ar gyfer ceblau cerbydau trydan yn unig yn y dyfodol. Mae'r llwybrau hyn yn cael eu disgrifio'n gyffredinol fel 'seilwaith dwythell'.

Byddai hyn yn llai costus i'r datblygwr na man gwefru llawn, a byddai'n helpu i ddiogelu tai newydd at y dyfodol trwy ei gwneud yn rhatach i osod mannau gwefru yn ddiweddarach. Fodd bynnag, mae'r manteision i'r defnyddiwr yn cael eu lleihau hefyd. Gyda llwybrau ceblau, bydd costau gosod y man gwefru yn ddiweddarach yn uwch a bydd angen i drydanwr ymweld â'r cartref, sy'n rhwystr posibl i brynu cerbydau trydan yn y dyfodol. Yn ogystal, gan fod llwybrau'r ceblau yn llai gweladwy i'r defnyddiwr unigol (ac efallai nad yw'n sylweddoli bod y llwybrau ceblau yn bodoli), nid yw'r llywodraeth yn credu y bydd yr un fantais yn bodoli o safbwynt defnyddio cerbydau trydan o'i gymharu â man gwefru ffisegol.

### 3.5.2 Opsiwn 2: Darpariaeth cost is (ceblau)

Dewis arall yw gosod gofyniad ar gyfer y ceblau trydan galluogi ar gyfer man gwefru cerbydau trydan yn unig (gan gynnwys llwybrau ceblau, ceblau, a'r capasiti trydanol gofynnol ar y bwrdd dosbarthu).

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hyn yn ofyniad gofynnol priodol. Byddai'n ychwanegu cost i'r datblygwr adeg adeiladu o tua £500 (+/-£400) ar gyfer cartref cyffredin, heb gynnig yr un fantais 'ffactor hwb' â man gwefru ffisegol. Yn ogystal, byddai'n rhaid i berchennog y cartref dalu'r gost ychwanegol (uwch) o osod man gwefru yn nes ymlaen.

## 3.6 Gofyniad arfaethedig ar gyfer un man gwefru fesul 'Annedd' yn y rheoliadau adeiladu.

### 3.6.1 Trosolwg cyffredinol

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys unrhyw annedd breswyl sydd â lle maes parcio cysylltiedig o fewn cwmpas y rheoliadau adeiladu.

Mae'r un manteision o osod seilwaith mannau gwefru mewn adeiladau preswyl sydd â mwy na 10 o leoedd parcio ceir yn berthnasol i adeiladau sydd â llai o leoedd parcio cysylltiedig a hyd yn oed dai sydd ag un lle parcio cysylltiedig yn unig. Bydd y gofyniad hefyd yn berthnasol i'r lleoedd parcio sy'n gysylltiedig ag anheddau mewn adeiladau defnydd cymysg.

Felly, y bwriad yw sicrhau bod un man gwefru i bob annedd yn hytrach nag i bob lle parcio. Felly, ar gyfer anheddau sydd â mwy nag un lle parcio cysylltiedig, bydd angen gosod un man gwefru yn unig[10].

Rydym wedi drafftio'r canllawiau technegol (gweler Atodiad A) i adlewyrchu hyn, sy'n ei gwneud yn ofynnol i osod man gwefru ar gyfer anheddau newydd lle mae lleoedd parcio wedi'u darparu o fewn ffin safle'r adeilad y bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan sawl annedd. Dylai nifer y lleoedd parcio sydd â mynediad at fan gwefru cerbydau trydan fod yr isaf o'r isafbwynt o:

a) gyfanswm y lleoedd parcio
b) gyfanswm yr anheddau sy'n defnyddio'r maes parcio.

Bydd esemptiadau arfaethedig o'r cynnig i ddarparu mannau gwefru cerbydau trydan i anheddau yn adran 6.

## 3.7 Gwaith adnewyddu sylweddol i adeiladau preswyl

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gofyniad i osod mannau gwefru ym mhob adeilad preswyl sydd â mwy na 10 lle parcio sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol, gyda rhai esemptiadau (gweler adran 6).

Diffinnir gwaith adnewyddu sylweddol, yn unol â'r Rheoliadau Adeiladu, fel newid lle mae mwy na 25 y cant o arwynebedd amlen yr adeilad yn cael ei adnewyddu. Bydd y gofyniad yn cael ei gyfyngu ymhellach i fod yn berthnasol yn unig mewn achosion lle mae'r gwaith adnewyddu sylweddol yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

a) Y maes parcio.
b) Seilwaith trydanol yr adeilad lle mae'r maes parcio wedi'i leoli y tu mewn i'r adeilad.
c) Seilwaith trydanol y maes parcio, lle mae'r maes parcio wedi'i leoli yn gyfagos i'r adeilad.

Mae manteision i'w gwneud yn ofynnol i osod man gwefru (yn hytrach na llwybrau cebl yn unig) ar gyfer gwaith adnewyddu sylweddol, yn enwedig mewn perthynas ag adeiladau aml-annedd. Mae'r gost o ôl-osod mannau gwefru mewn meysydd parcio sy'n gysylltiedig ag adeiladau aml-annedd pan nad oes gwaith adnewyddu sylweddol yn cael ei wneud mor uchel fel nad yw'r farchnad yn darparu hyn yn wirfoddol yn aml, sy'n gallu creu rhwystr i ddefnyddio cerbydau trydan. O ystyried hyn, ymddengys bod cyflwyno gofyniad i osod mannau gwefru pan fydd gwaith adnewyddu sylweddol (sy'n cynnwys y maes parcio) eisoes yn digwydd yn ffafriol, er mwyn manteisio ar yr arbedion cost cysylltiedig. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y byddai'r gofyniad hwn yn cynyddu cost cyfalaf gwaith adnewyddu sylweddol, ac y gallai lesddeiliaid presennol ysgwyddo'r gost gyfalaf hon yn y pen draw. Nid ydym ychwaith yn dymuno atal gwaith adnewyddu sylweddol trwy ychwanegu costau ychwanegol annerbyniol at unrhyw waith sy'n cael ei wneud. Nid yw'r

[10]Ar gyfer adeiladau preswyl sydd â mwy na 10 o leoedd parcio ceir, rhaid gosod llwybrau cebl ar gyfer pob lle parcio.

un her cost yn bodoli fel arfer mewn lleoliadau un annedd, ac mae mwy o broblemau posibl yn codi os yw gwaith adnewyddu i ran ar wahân o'r annedd yn golygu bod y gofynion yn berthnasol.

Pe baem yn cymhwyso'r gofynion mannau gwefru i adeiladau preswyl sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol, byddem yn ceisio cyflwyno rhai cyfyngiadau (gweler y drafodaeth yn adran 6.2.3). Mae'r diffiniad o waith adnewyddu sylweddol sy'n cael ei ddefnyddio yn y rhan hon yn gyffredinol, ynghyd â'r cyfyngiadau hyn, yn golygu bod y gofyniad ddim ond yn debygol o fod yn berthnasol mewn nifer cyfyngedig iawn o amgylchiadau.

Ein bwriad yw sicrhau nad yw cyflwyno'r gofyniad hwn yn ychwanegu cymaint o faich ar ddatblygwyr fel nad yw rhai datblygiadau yn hyfyw. Felly, rydym yn bwriadu cynnwys esemptiad ar gyfer adeiladau nad ydynt yn ymarferol o safbwynt technolegol i gynnwys man gwefru cerbydau trydan (yn yr achosion hyn, dim ond y gofyniad ar gyfer llwybrau cebl a fyddai'n berthnasol, oni bai bod hyn hefyd yn anhyfyw fel yr amlinellir yn adran 6).

## 3.8 Newid defnydd sylweddol i adeiladau preswyl

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymhwyso'r rheoliadau i achosion lle mae adeilad dibreswyl yn cael ei droi'n annedd, sef yr hyn a elwir yn "newid defnydd sylweddol" yn y Rheoliadau Adeiladu. Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Adeiladu 2010 yn diffinio newid defnydd sylweddol. Yn ôl y diffiniad, mae hyn yn ymwneud â chreu cartref newydd, felly mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn berthnasol iddo.

### Newid defnydd sylweddol (darn o Reoliad 5, Rheoliadau Adeiladu 2010)

*For the purposes of paragraph 8(1)(e) of Schedule 1 to the Act and for the purposes of these Regulations, there is a material change of use where there is a <u>change in the purposes for which or the circumstances in which a building is used</u>, so that after that change—*

*(a) the building is used as a <u>dwelling</u>, where previously it was not.*

*(b) the building contains a <u>flat</u>, where previously it did not.*

Rydym yn cynnig y dylai'r gofyniad hwn fod yn berthnasol hefyd i adeiladau sy'n destun newid defnydd sylweddol i greu annedd (e.e. adeilad swyddfeydd yn cael ei droi'n fflatiau).

Mae'r llywodraeth yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i bob uned breswyl a ffurfiwyd gan newid defnydd sylweddol gael mynediad at fan gwefru cerbyd trydan oni bai bod hyn yn anhyfyw fel yr amlinellir yn adran 6.

## 3.9 Cwestiynau’r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1:**

Ydych chi'n cytuno â'n safbwynt polisi arfaethedig y dylai pob adeilad preswyl newydd sydd â lle parcio cysylltiedig fod â man gwefru?

**Cwestiwn 2:**

Rhowch resymau dros eich ateb, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, unrhyw ofyniad amgen a fyddai'n addas yn eich barn chi.

**Cwestiwn 3:**

A ddylai'r gofyniad Rheoliadau Adeiladu arfaethedig i osod man gwefru ym mhob cartref newydd fod yn berthnasol hefyd i adeiladau preswyl sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol?

Rhowch esboniad am eich ateb, gan gynnwys, unrhyw dystiolaeth neu gostau os yw hynny’n berthnasol.

**Cwestiwn 4:**

Os felly, ydych chi'n credu mai dim ond i adeiladau preswyl sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol sydd â mwy na 10 o leoedd parcio ceir y dylai'r gofyniad fod yn berthnasol?

Rhowch esboniad am eich ateb, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth neu gostau os yw hynny'n berthnasol.

**Cwestiwn 5:**

Mewn adeiladau nad ydynt yn ymarferol o safbwynt technolegol i gynnwys man gwefru cerbydau trydan, a yw hwn yn achos priodol i gyflwyno esemptiad ac, os felly, beth yw'r trothwy priodol ar gyfer sbarduno'r esemptiad hwn?

**Cwestiwn 6:**

Ydych chi’n cytuno y dylai'r gofynion bennu bod angen un man gwefru ar gyfer pob annedd yn hytrach nag un man gwefru ar gyfer pob lle parcio sy'n gysylltiedig â'r adeilad?

**Cwestiwn 7:**

Rhowch resymau dros eich ateb, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, unrhyw ofyniad amgen a fyddai'n addas yn eich barn chi.

**Cwestiwn 8:**

A ddylai'r gofyniad Rheoliadau Adeiladu arfaethedig ar gyfer man gwefru a seilwaith cerbydau trydan fod yn berthnasol os yw defnydd yr adeilad wedi newid yn sylweddol yn unol â'r diffiniad ym mharagraff 8(1)(e) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, a) neu b) Rheoliad 5 Rheoliadau Adeiladu 2010?

**Cwestiwn 9:**

Os ydych chi'n anghytuno, eglurwch pam.

**Cwestiwn 10:**

A ddylem gyflwyno esemptiad i'r gofynion ar gyfer newid defnydd sylweddol mewn adeiladau preswyl mewn achosion lle mae digon o gapasiti dros ben yn y cyflenwad trydan sy'n cyrraedd y maes parcio?

**Cwestiwn 11:**

Os ydych chi'n anghytuno, eglurwch pam.

# 4. Newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu:

## Adeiladau dibreswyl newydd ac adeiladau dibreswyl sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol.

### 4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn gofyn am safbwyntiau ar ein cynnig ar gyfer adeiladau dibreswyl fel meysydd parcio sy'n gyfagos yn ffisegol[11] i adeiladau dibreswyl newydd ac adeiladau dibreswyl sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol.

Bydd y Rheoliadau Adeiladu yn cynnwys darpariaethau ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan mewn adeiladau dibreswyl er mwyn sicrhau bod gan leoedd fel gweithleoedd a meysydd parcio manwerthu isafswm o seilwaith gwefru cerbydau trydan er mwyn cefnogi defnydd o gerbydau trydan yn y dyfodol. Bydd darparu mannau gwefru mewn lleoliadau dibreswyl allweddol yn darparu 'hwb' pellach i helpu i gefnogi'r defnydd o gerbydau trydan a dileu rhwystr allweddol i brynu cerbydau trydan.

### 4.2 Gofyniad arfaethedig

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai pob adeilad dibreswyl newydd sydd â mwy na 10 lle parcio a phob adeilad sy'n cael ei adnewyddu'n sylweddol neu sy'n destun newid defnydd sylweddol gael un man gwefru a llwybrau cebl ar gyfer man gwefru cerbydau trydan ar gyfer un ym mhob pum lle.

Mewn sefyllfaoedd lle mae'r adeilad yn un defnydd cymysg, h.y. mae'r adeilad yn cynnwys anheddau a gofodau nad ydynt yn anheddau, dim ond i'r lleoedd parcio sydd wedi'u neilltuo'n benodol i'r rhannau o'r adeilad nad ydynt yn annedd y bydd y gofyniad yn berthnasol.

### 4.3 Manteision y dull gweithredu hwn

Bydd y gofynion hyn yn golygu y bydd yn haws gosod mannau gwefru mewn lleoedd parcio sydd â llwybrau cebl yn y dyfodol; a gall ymwelwyr fod yn hyderus y bydd gan yr adeilad o leiaf un man gwefru. Byddai'r gofyniad hwn yn arwain at osod miloedd yn fwy o fannau gwefru cyhoeddus mewn cyrchfannau fel archfarchnadoedd, gweithleoedd, a meysydd parcio cyhoeddus, a fydd yn helpu i ddatblygu seilwaith gwefru hygyrch a chyfleus ar gyfer gyrwyr. Mae'r gofynion technegol arfaethedig ar gyfer y man gwefru a'r llwybrau cebl wedi'u hamlinellu yn adran 5.

Bydd gosod mannau gwefru a llwybrau cebl adeg y gwaith adeiladu neu yn ystod adnewyddu’n llai costus na'u gosod ar ôl cwblhau'r gwaith. Mae gosod man gwefru ymlaen llaw mewn maes parcio dibreswyl oddeutu £1300 (+/- £700) yn rhatach nag ôl-osod man gwefru yn nes ymlaen. Yn ogystal, gall gosod llwybrau cebl adeg adeiladu mewn meysydd parcio dibreswyl olygu

[11] Y diffiniad cyfreithiol yw "oddi mewn i ffin y safle". Gweler y manylion yn adran 6.

bod gosod mannau gwefru yn ddiweddarach tua £2400 (+/-£1,800) yn rhatach na man gwefru sydd wedi'i ôl-osod yn llawn.

Mae'r galw am fannau gwefru a'r math o fannau gwefru sydd eu hangen mewn adeiladau dibreswyl yn gymysg, a bydd yn dibynnu ar sut mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio (h.y. efallai y bydd angen mannau gwefru cyflym ar gyfer adeiladau ag amseroedd aros byr, tra bydd mannau gwefru arafach yn fwy addas ar gyfer gweithleoedd) a'r ddarpariaeth ehangach o fannau gwefru yn yr ardal leol. Felly, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol gosod safon fwy rhagnodol ar gyfer pob adeilad dibreswyl drwy'r Rheoliadau Adeiladu. Mewn achosion masnachol, rydym yn rhagweld y bydd busnesau yn gosod mwy o fannau gwefru na'r gofyniad sylfaenol yn y Rheoliadau Adeiladu.

Byddwn yn cwmpasu'r posibiliadau i adeiladau gael eu hesemptio o'r Rheoliadau yn adran 6.

## 4.4 Cwestiwn yr ymgynghoriad

**Cwestiwn 12:**

Ydych chi’n cytuno â safbwynt polisi arfaethedig Llywodraeth Cymru?

Rhowch resymau dros eich ateb, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, unrhyw ofyniad amgen a fyddai'n addas yn eich barn chi.

# 5. Manylebau technegol Rheoliadau Adeiladu

## 5.1 Cyflwyniad

Mae Dogfennau Cymeradwy yn cael eu darparu ochr yn ochr â'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn darparu arweiniad ar sut i gydymffurfio â'r rheoliadau. Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi fersiwn ddrafft o destun y Dogfennau Cymeradwy ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn (Atodiad A).

Noder bod Llywodraeth y DU wedi cynnal ymgynghoriad ar wahân ar gyflwyno gofynion rheoleiddiol i sicrhau bod mannau gwefru yn rhai clyfar, gan alluogi cerbydau trydan i gael eu hintegreiddio i system ynni glyfar a hyblyg yn y dyfodol. Felly, er nad ydym yn bwriadu pennu swyddogaeth glyfar ar gyfer y mannau gwefru yn y Dogfennau Cymeradwy, yn ymarferol, mae hyn yn debygol o fod yn ofynnol trwy ddulliau eraill.

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu adolygu'r Dogfennau Cymeradwy i sicrhau bod y manylebau yn parhau i fod yn briodol yn y blynyddoedd i ddod.

## 5.2 Ystyriaethau diogelwch

Mae angen sicrhau bod y broses o osod mannau gwefru cerbydau trydan a'r seilwaith galluogi yn bodloni safonau diogelwch perthnasol. Mae'r safonau hyn yn cynnwys gofynion ar gyfer diogelwch ffisegol a diogelwch rhag y tywydd, cyflenwad trydan digonol a diogelwch rhag sioc drydanol a gorlwytho cylched a daearu a bondio er mwyn adlewyrchu'r trefniadau presennol wrth adeiladu a lleoli mannau gwefru cerbydau trydan.

Mae diogelwch trydanol yn debygol o fod y tu hwnt i gwmpas y rheoliad sy'n cyflwyno'r gofynion gwefru cerbydau trydan a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn oherwydd bod gofynion deddfwriaethol eraill yn ymdrin â gofynion diogelwch trydanol.

Yn y Ddogfen Gymeradwy ddrafft (AD), rydym yn cynnig cyfeirio at y rheoliadau, y canllawiau statudol a'r codau ymarfer sy'n ymwneud â diogelwch trydanol. Mae'r rhain yn cynnwys Approved Document P: Electrical safety – dwellings, Electricity at Work Regulations HSR25, BS7671: y 18fed rhifyn (2018) a'r IET Code of Practice for EV Charging.

Rydym yn ymwybodol o'r agweddau diogelwch ar osod mannau gwefru cerbydau trydan, felly rydym yn bwriadu diwygio'r Rheoliadau Adeiladu i'w gwneud yn glir bod gosod, ychwanegu, neu addasu cylchedau pwrpasol a threfniadau daearu a bondio ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan yn waith adeiladu hysbysadwy (gwaith adeiladu yw hwn lle mae'n ofynnol cyflwyno cais rheoliadau adeiladu i gorff rheoli adeiladu). O dan y rheolau presennol, os oes unrhyw waith yn dod o dan gwmpas Rhan P o'r Rheoliadau Adeiladu, byddai angen iddo gael ei wneud gan osodwr sydd wedi'i gofrestru gyda Chynllun Person Cymwys cymeradwy neu, os yw'r gwaith yn cael ei wneud gan osodwr anghofrestredig, byddai angen i gorff rheoli adeiladu wirio'r gwaith.

# 6. Ystyriaethau allweddol ar gyfer esemptiadau

## 6.1 Cyflwyniad

Ein bwriad yw cynnwys adeiladau lle mae'n briodol gosod mannau gwefru cerbydau trydan yn unig. Mae'r adran hon yn trafod y materion ac yn gofyn am safbwyntiau ar esemptiadau priodol ar gyfer ein safbwyntiau polisi arfaethedig.

## 6.2 Trafodaeth yn ymwneud ag esemptiadau posibl i'r rheoliadau adeiladu.

### 6.2.1 Ystyriaethau o gost capasiti trydanol

Un ffactor sy'n gallu cynyddu'r gost o osod mannau gwefru yn sylweddol yw'r gost o sicrhau'r capasiti trydanol ychwanegol angenrheidiol i adeilad (gweler yr asesiad effaith yn Atodiad B am ragor o fanylion am gostau cysylltu â'r grid, ac adran 3 a 4 am ragor o wybodaeth am gyflenwi trydan i adeiladau). Gallai'r gofynion capasiti trydanol fod yn sylweddol o ystyried y mathau o fannau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael yn gyffredinol fel y'u nodir yn Nhabl 2 o'r ymgynghoriad hwn.

Bydd costau gosod ceblau a chaledwedd mannau gwefru yn amrywio'n sylweddol ar sail amodau safle-benodol mewn perthynas â'r grid lleol. Mewn rhai achosion, gallai'r angen i osod mannau gwefru olygu bod angen uwchraddio'r grid yn sylweddol, a fydd yn gostus i'r datblygwr. Byddai gweithredwr y rhwydwaith dosbarthu yn ysgwyddo rhai costau hefyd. Mewn achosion lle mae'r gost hon yn eithriadol o uchel, ac yn debygol o olygu nad yw datblygiadau yn hyfyw, barn Llywodraeth Cymru yw na ddylai'r gofynion llawn ar gyfer mannau gwefru fod yn berthnasol, a dim ond y llwybrau cebl a ddylai gael eu darparu.

Mae drafft o'r meini prawf dichonoldeb technegol wedi'i amlinellu yn adran 1.1 i 1.7 o'r Ddogfen Gymeradwy ddrafft. Rydym yn awgrymu y dylid pennu'r trothwy ar gyfer esemptiadau oddeutu 2 a hanner gwaith yn fwy na chost y senario uchel ar gyfer y cysylltiad capasiti trydanol cyfartalog sydd ei angen ar gyfer man gwefru mewn adeilad aml-annedd, sydd, yn ôl y costau a gasglwyd gennym, yn £3,600 fesul man gwefru oherwydd mai £1400[12] yw'r gost uchel yn ein hasesiad effaith (gweler Atodiad A4 yn yr asesiad effaith ar adeiladau preswyl yn Atodiad B). Bwriad y trothwy yw esemptio datblygiadau lle byddai gosod mannau gwefru yn arwain at beidio â pharhau â datblygiadau oherwydd y gost hon.

Rydym o'r farn bod gosod trothwy cymharol uchel yn creu cymhelliant i ddatblygwyr weithio gyda gweithredwyr mannau gwefru a rheolwyr

[12]Rydym yn gofyn am ragor o dystiolaeth am gostau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Os yw amcangyfrif cost y senario uchel yn newid oherwydd yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn symud y trothwy yn unol â hynny.

rhwydwaith dosbarthu i ddod o hyd i atebion arloesol mewn amgylchiadau lle mae'r capasiti trydanol yn gyfyngedig. Gallai hyn gynnwys mathau o dechnoleg rheoli llwyth a storio batri, sydd bellach ar gael yn ehangach ar y farchnad nawr nag yn y gorffennol.

### 6.2.2 Ystyriaethau newid defnydd sylweddol

Mewn rhai achosion, gallai gofyniad i osod mannau gwefru mewn achosion o newid defnydd sylweddol[13] sbarduno angen am gyflenwad pŵer newydd i'r maes parcio, a allai fod yn gostus. Nid yw Llywodraeth Cymru eisiau creu baich ariannol diangen i ddatblygwyr a allai gyfyngu ar greu anheddau newydd ar sail newid defnydd sylweddol, ac felly nid oes bwriad i'r gofynion sbarduno'r angen am gyflenwad pŵer newydd. Bwriad Llywodraeth Cymru felly yw cyfyngu cyflwyniad y gofynion o’r cynigion i achosion lle mae angen cysylltiad newydd, a'i gwneud yn ofynnol i osod nifer y mannau gwefru y gall y cyflenwad pŵer presennol ddarparu ar eu cyfer.

Mewn rhai amgylchiadau, gallai defnydd adeiladau rhestredig ac adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth newid yn sylweddol. Er mwyn diogelu nodweddion yr adeiladau hyn, gallai fod yn briodol eu hesemptio rhag y gofyniad i osod man gwefru os yw'r gofyniad yn effeithio ar gymeriad yr adeilad. Hoffem ofyn am safbwyntiau ar addasrwydd unrhyw esemptiad o'r fath a pha adeiladau y byddai'n briodol eu hesemptio. Rydym yn awgrymu cyflwyno esemptiadau ar gyfer adeiladau y mae eu defnydd yn newid yn sylweddol, fel a ganlyn:

a) adeiladau sydd wedi'u rhestru yn unol ag adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;
b) mewn ardal gadwraeth a ddynodir yn unol ag adran 69 o'r Ddeddf honno; neu
c) adeiladau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr o henebion a gynhelir o dan adran 1 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.

Dim ond pe bai cydymffurfio â'r gofyniad i osod man gwefru yn newid cymeriad neu olwg yr adeilad mewn ffordd annerbyniol y byddai'r esemptiad yn berthnasol.

[13] Wedi'i ddiffinio yn Rheoliad 5, a) a b), gweler Blwch 3

### 6.2.3 Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 13:**

Ydych chi'n cytuno y dylem gyflwyno esemptiad ar gyfer adeiladau rhestredig ac adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth fel yr awgrymir uchod?

**Cwestiwn 14:**

Os ydych chi'n anghytuno, eglurwch pam.

### 6.2.4 Ystyriaethau gwaith adnewyddu sylweddol

Er mwyn darparu'r gofyniad am fannau gwefru ar gyfer adeiladau preswyl ac adeiladau dibreswyl, rydym o'r farn bod terfyn cost o 7 y cant yn esemptiad addas gan nad ydym am i ddatblygwyr ysgwyddo costau anghymesur, a allai atal gwaith adnewyddu sylweddol angenrheidiol. Felly, rydym yn bwriadu ychwanegu esemptiad i'r rheoliadau ar gyfer gwaith adnewyddu sylweddol lle mae'r gost o osod y mannau gwefru (neu lwybrau cebl) yn fwy na 7 y cant o gyfanswm cost y gwaith adnewyddu sylweddol ar yr adeilad.

Os ydym yn dymuno cyflwyno gofyniad arall am fannau gwefru ar gyfer gwaith adnewyddu sylweddol, gallwn gyflwyno rhai esemptiadau pellach. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu safbwyntiau ar esemptiadau priodol. Rydym yn ymwybodol y gall gosod man gwefru mewn maes parcio fod yn gostus iawn mewn achosion lle mae hyn yn golygu bod angen cyflwyno cyflenwad trydan newydd i'r adeilad. Felly, er mwyn sicrhau nad ydym yn atal gwaith adnewyddu sylweddol a phwysig oherwydd y rheoliadau hyn, rydym yn bwriadu cyfyngu'r gofyniad i achosion lle mae digon o gapasiti dros ben yn y cyflenwad trydan sy'n cyrraedd y maes parcio. Hyd yn oed os yw'r esemptiad yn cael ei gyflwyno, byddai'r gofynion sylfaenol ar gyfer llwybrau cebl yn berthnasol o hyd.

Yn yr un modd, mewn perthynas ag adeiladau preswyl, rydym o'r farn bod terfyn cost o 7% ar gyfer gwaith adnewyddu sylweddol mewn adeiladau dibreswyl yn esemptiad addas.

Mae cynigion ar gyfer esemptiadau i ofynion mannau gwefru ar gyfer lleoedd mewn meysydd parcio caeedig neu agored, ac eiddo preswyl sy'n cael ei adnewyddu'n sylweddol at ddibenion adweirio diogelwch tân, wedi cael eu cynnwys er mwyn adlewyrchu materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad tebyg ar reoliadau adeiladu yn Lloegr.

## 6.3 Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 15:**

A ddylem gyflwyno esemptiad i'r rheoliadau ar gyfer gwaith adnewyddu sylweddol mewn adeiladau preswyl lle mae'r gost o osod y llwybrau cebl yn fwy na 7 y cant o gyfanswm cost y gwaith adnewyddu sylweddol?

**Cwestiwn 16:**

Os ydych chi'n anghytuno, eglurwch pam.

**Cwestiwn 17:**

A ddylem gyflwyno esemptiad i'r gofynion ar gyfer gwaith adnewyddu sylweddol mewn adeiladau preswyl mewn achosion lle nas oes digon o gapasiti dros ben yn y cyflenwad trydan sy'n cyrraedd y maes parcio?

**Cwestiwn 18:**

Os ydych chi'n anghytuno, eglurwch pam.

**Cwestiwn 19:**

A ddylem gyflwyno esemptiad i'r rheoliadau ar gyfer gwaith adnewyddu sylweddol mewn adeiladau dibreswyl lle mae'r gost o osod y llwybrau cebl a'r man gwefru yn fwy na 7 y cant o gyfanswm cost y gwaith adnewyddu sylweddol?

**Cwestiwn 20:**

Os ydych chi'n anghytuno, eglurwch pam.

### 6.3.1 Crynodeb o esemptiadau arfaethedig

**Tabl 3: Crynodeb o esemptiadau arfaethedig**

| Rhif | Esemptiad | Preswyl | Dibreswyl |
|---|---|---|---|
| 1. | Adeiladau preswyl newydd lle byddai gosod mannau gwefru yn cynyddu costau cysylltu â'r grid fwy na £3,600 ar gyfer pob man gwefru. | Arfaethedig | Amherthnasol |
| 2. | Esemptiad ar gyfer adeiladau sy'n destun newid defnydd sylweddol ar gyfer adeiladau rhestredig, adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth ac adeiladau sydd wedi'u cynnwys mewn cofrestr o henebion. | Arfaethedig | Amherthnasol |
| 3. | Ar gyfer adeiladau sy'n destun newid defnydd sylweddol, bydd y polisi ond yn ei gwneud yn ofynnol gosod y nifer o fannau gwefru y gall y cyflenwad pŵer presennol ddarparu ar eu cyfer. | Arfaethedig | Amherthnasol |
| 4. | Ar gyfer adeiladau preswyl sy'n cael eu hadnewyddu yn sylweddol, bydd y polisi ond yn ei gwneud yn ofynnol gosod y nifer o fannau gwefru y gall y cyflenwad pŵer presennol ddarparu ar eu cyfer. | Arfaethedig | Arfaethedig |
| 5. | Ar gyfer gwaith adnewyddu sylweddol, lle mae cost gosod y seilwaith cerbydau trydan yn fwy na 7% o gyfanswm cost gwaith | Arfaethedig | Arfaethedig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sylweddol i adnewyddu'r adeilad. | | |
| 6. | Nid yw'r gofynion ar gyfer mannau gwefru yn berthnasol i leoedd mewn meysydd parcio caeedig neu agored (e.e. lloriau isaf, meysydd parcio o dan adeiladau a meysydd parcio aml-lawr).<br>Rhaid bodloni gofynion llwybrau cebl mewn adeiladau newydd, adeiladau sy'n destun newid sylweddol i greu anheddau, ac adeiladau sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol yr un fath, fel uchod. Nid yw'r esemptiad hwn yn berthnasol i leoliadau fel garejys unigol. | Arfaethedig | Arfaethedig |
| 7. | Esemptiad ar gyfer eiddo preswyl sy'n cael ei adnewyddu'n sylweddol at ddibenion adweirio diogelwch tân oherwydd diffygion diogelwch tân hanesyddol (h.y. adweirio cladin). | Arfaethedig | Arfaethedig |

# 7. Asesiad Effaith

Mae'r llywodraeth yn cyhoeddi Asesiad Effaith cam ymgynghori ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Mae'r Asesiad Effaith yn seiliedig ar rai rhagdybiaethau allweddol yn ymwneud â datblygu marchnadoedd cerbydau trydan a mannau gwefru cerbydau trydan.

Mae'r data ar y costau sy'n gysylltiedig â gwefru cerbydau trydan mewn adeiladau newydd wedi cael ei gasglu drwy asesiad Llywodraeth y DU. Mae'r costau hyn yn amrywio'n sylweddol er mwyn adlewyrchu'r ystod o amgylchiadau'r byd go iawn sy'n debygol o fodoli, yn enwedig o safbwynt costau cysylltu â'r grid gan fod y costau hyn yn benodol iawn i leoliad. Fel sy'n wir am unrhyw farchnad newydd, nid oes sicrwydd ynglŷn â sut mae'r costau hyn yn debygol o ddatblygu yn y dyfodol.

## 7.1 Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 21:**

Ydych chi'n cytuno â'r rhagdybiaethau, y costau a'r effeithiau sydd wedi'u hamlinellu yn yr Asesiad Effaith?

**Cwestiwn 22:**

Os nad ydych chi'n cytuno, darparwch dystiolaeth ategol os gwelwch yn dda.

# 8. Trefniadau trosiannol / Amseroedd paratoi

Bydd cyfnod o chwe mis yn cael ei roi ar waith, rhwng llunio a chyflwyno'r rheoliadau, pan na fydd yn ofynnol yn gyfreithiol i adeiladau sydd â'u hysbysiadau cychwynnol/adeiladu neu eu cynlluniau llawn wedi'u hadneuo fodloni'r rheoliadau.

Pryd bynnag y bydd y newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu neu safonau cymeradwy yn cael eu rhoi ar waith, bydd y trefniadau trosiannol yn berthnasol. Pan fydd datblygwr yn cyflwyno hysbysiad adeiladu neu gais cynllunio llawn i'r awdurdod lleol, bydd safonau'r Rheoliadau Adeiladu sydd ar waith ar adeg y cais yn berthnasol, cyn belled â bod gwaith o dan yr hysbysiad adeiladu neu'r cais cynllunio llawn eisoes wedi dechrau neu ei fod yn dechrau o fewn cyfnod penodedig o gyflwyno'r hysbysiad.

Os yw hysbysiad adeiladu, hysbysiad cychwynnol neu adnau cynlluniau llawn wedi'u cyflwyno i'r corff rheoli adeiladu cyn i welliannau Rhan S 2025 ddod i rym, rydym yn cynnig y dylai'r trefniadau trosiannol fod yn berthnasol i adeiladau unigol lle mae gwaith adeiladu wedi dechrau o fewn cyfnod rhesymol yn unig. At y diben hwn, rydym yn cynnig mai cyfnod rhesymol yw cyfnod o 1 flwyddyn o'r dyddiad y daw diwygiadau Rhan S 2025 i rym.

Byddai hyn yn golygu y byddai'r darpariaethau trosiannol yn darparu na fyddai diwygiad Rhan S 2025 yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:

(a) bod gwaith adeiladu ar adeilad unigol wedi dechrau yn unol ag unrhyw ddarpariaeth hysbysu berthnasol (hysbysiad o waith adeiladu yn dechrau) cyn dyddiad dod i rym y diwygiadau Rhan S; neu

(b) y cydymffurfiwyd â darpariaeth hysbysu berthnasol mewn perthynas â gwaith adeiladu arfaethedig a bod yr adeilad unigol wedi dechrau o fewn blwyddyn i'r rheoliadau yn dod i rym; neu

(c) bod ceisiadau wedi'u cyflwyno cyn dyddiad dod i rym y rheoliadau diwygiedig a bod y gwaith adeiladu wedi dechrau o fewn 12 mis i'r rheoliadau yn dod i rym.

## 8.1 Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 23:**

Beth yw cyfnod pontio rhesymol rhwng cyhoeddi'r rheoliadau a'r canllawiau a'r gofynion newydd yn dod i rym?

**Cwestiwn 24:**

Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y diwygiadau arfaethedig ar yr iaith Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 25:**

Yn eich barn chi, a ellid ffurfio'r camau gweithredu arfaethedig neu eu newid er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Cwestiwn 26:**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

## 9. Camau Nesaf

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 29 Tachwedd 2024. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu dadansoddi a bydd ymateb gan Lywodraeth Cymru yn dilyn.